Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Derwen
# Higher Kinnerton
# Sir y Fflint
# CH4 9AJ

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/07/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Sefydledig Derwen wedi'i lleoli ym mhentref Higher Kinnerton yn Sir y Fflint.  Mae 209 o ddisgyblion 3 i 11 oed yn yr ysgol, gan gynnwys 19 o blant yn yr ysgol feithrin.  Mae wyth dosbarth un oedran.

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.  Mae hyn ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yn yr awdurdod lleol ac yng Nghymru.

Mae'r ysgol wedi nodi bod gan 10% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.  Mae hyn islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

Daw bron pob un o'r disgyblion o gartrefi Saesneg eu hiaith.  Mae ychydig bach iawn o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.  Ychydig iawn ohonynt sydd o gefndir ethnig lleiafrifol neu sydd â Saesneg yn iaith ychwanegol.

Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf ym Medi 2009.  Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er Ionawr 2008.

Y gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Gynradd Sefydledig Derwen yn 2014-2015 yw £2,942 y disgybl.  Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir y Fflint yw £5,111 a'r lleiafswm yw £2,838.  Mae Ysgol Gynradd Sefydledig Derwen yn safle 59 o'r 68 ysgol gynradd yn Sir y Fflint o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig o leiaf ac yn cyflawni safonau da neu well yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- Mae safonau uchel o lythrennedd a rhifedd gan y rhan fwyaf o ddisgyblion a defnyddiant y medrau hyn yn dda mewn pynciau eraill
- Mae agweddau disgyblion at ddysgu yn gadarnhaol ac mae bron pob un ohonynt yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn yr amrywiaeth eang o weithgareddau mae'r ysgol yn ei chynnig
- Mae addysgu a phrofiadau dysgu ysgogol, o ansawdd da, yn sicrhau bod disgyblion yn llawn symbyliad ac yn ymroi i'w dysgu
- Mae ansawdd da y gofal, cymorth ac arweiniad a roddir i ddisgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar eu safonau a'u lles

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- Mae'r pennaeth yn darparu cyfeiriad strategol clir wrth arwain a rheoli'r ysgol
- Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi ac yn herio'r ysgol yn effeithiol
- Mae prosesau hunanarfarnu yn gadarn ac yn galluogi arweinwyr yr ysgol i ganolbwyntio'n glir ar ddatblygu strategaethau addysgu a dysgu sy'n sicrhau gwelliannau yn safonau disgyblion
- Mae holl aelodau'r staff yn deall eu rolau'n glir, yn gweithio'n dda fel tîm ac yn chwarae rhan lawn yng ngweithgareddau gwella'r ysgol
- Mae trefniadau partneriaeth cadarnhaol yn cyfrannu'n dda at safonau a lles disgyblion

## Argymhellion

A1 Codi cyrhaeddiad bechgyn ar y lefelau a’r deilliannau uwch na’r disgwyl

A2 Sicrhau bod tasgau dysgu yn herio’r holl ddisgyblion yn effeithiol, yn enwedig y rhai mwy abl

A3 Gwella effeithiolrwydd marcio trwy sicrhau bod disgyblion yn ymateb yn bwrpasol i awgrymiadau am welliannau

A4 Ymestyn cyfleoedd i athrawon rannu arfer dda y tu hwnt i’r ardal leol

**Beth sy’n digwydd nesaf**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n dechrau yn y dosbarth meithrin fedrau ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran, neu uwchlaw. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig o leiaf ac yn cyflawni safonau da neu well yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda a defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i ennill gwybodaeth a medrau newydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda ynghylch yr hyn y maent wedi'i ddysgu.

Mae medrau llythrennedd disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol a defnyddiant eu medrau llythrennedd yn effeithiol i symud eu dysgu yn ei flaen. Mae bron pob un o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 yn gwrando'n astud yn ystod gwersi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o bob oed yn cyfrannu'n effeithiol mewn gwersi, yn aml yn rhoi atebion estynedig i gwestiynau ac yn cyfrannu'n berthnasol at drafodaethau'r dosbarth. Erbyn blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhugl a siaradant yn hyderus â'u ffrindiau ac oedolion mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Mae safonau darllen yn dda. Mae gan bron pob un o'r disgyblion agwedd gadarnhaol at ddarllen. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn darllen gyda rhugldder, cywirdeb a dealltwriaeth gynyddol. Mae bron pob un ohonynt yn defnyddio ystod addas o strategaethau i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen amrywiaeth eang o destunau gyda rhugldder, cywirdeb a mynegiant da. Siaradant yn rhwydd am lyfrau ac awduron y maent yn eu hoffi neu beidio ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gymeriadau a rhediad stori. Maent yn cymhwyso'u medrau darllen yn dda mewn gwahanol bynciau ac yn gallu dod o hyd i gyfeirlyfrau a'u defnyddio'n effeithiol. Erbyn blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn brasddarllen a sganio testunau am wybodaeth yn effeithiol iawn ac yn defnyddio medrau llunio casgliadau yn fedrus wrth greu dadl resymegol.

Mae bron pob un o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu cynnar. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu'n dda at amrywiaeth o ddibenion, fel galw stori Gelert i gof neu greu cyfres o reolau ar gyfer ymweld â chastell. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn yn gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Maent yn atgyfnerthu ac yn ymestyn eu medrau ysgrifennu'n dda i gynhyrchu darnau estynedig o ysgrifennu o ansawdd da ar draws y cwricwlwm. Erbyn blwyddyn 6, ysgrifennant yn daclus mewn paragraffau, ac mewn amrywiaeth dda o arddulliau at ddibenion a chynulleidfaoedd gwahanol, er enghraifft wrth ysgrifennu gwybodaeth am yr ysgol ar gyfer ei gwefan neu adrodd ar weithgareddau'n gysylltiedig â datblygiad Bae Caerdydd er 1833.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemategol yn systematig mewn gwersi mathemateg wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio'u medrau rhifedd yn dda ar draws y meysydd dysgu. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud defnydd da o fondiau rhif a'u gwybodaeth ddatblygol o werth lle i gyfrifo. Defnyddiant amrywiaeth o offer mesur yn gywir er mwyn cymhwyso'u medrau mewn cyd-destunau ymarferol, er enghraifft wrth amcangyfrif a chymharu cynhwysedd amrywiaeth o gynwysyddion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn casglu ac yn cyflwyno data'n briodol ac yn gallu datrys problemau mathemategol yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau rhifedd bron pob un o'r disgyblion yn dda. Gwnânt ddefnydd da o dablau lluosi i gynorthwyo â rhannu ac maent yn cymhwyso'r medrau hyn i ddatrys problemau geiriau yn gywir. Erbyn Blwyddyn 6, mae bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio ystod dda o ddulliau ysgrifenedig i gyfrifo'n gywir. Cyflwynant eu gwaith yn systematig ac esboniant y strategaethau a ddefnyddiant i ddatrys problemau yn glir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrifo ffracsiynau a degolion yn dda ac mae ganddynt wybodaeth dda am werth lle. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn dda ar draws y cwricwlwm.

Mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu Cymraeg. Maent yn frwdfrydig a gwnânt gynnydd da wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio ystod briodol o eirfa a phatrymau brawddegau sylfaenol i ateb cwestiynau personol syml a siarad am y tywydd. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn deall, yn gofyn ac yn ateb cwestiynau mwy cymhleth yn hyderus, gan roi rhesymau er mwyn ymestyn eu hatebion yn aml. Erbyn blwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn cyfathrebu'n effeithiol yn ysgrifenedig, er enghraifft wrth anfon gwybodaeth amdanynt eu hunain mewn e-bost at ddisgyblion mewn ysgol gyfagos.

Yn y Cyfnod Sylfaen dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion ar y deilliant disgwyliedig mewn llythrennedd, sef deilliant 5, wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng yr 50% is a'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mewn datblygiad mathemategol, mae perfformiad disgyblion wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg yn gyson. Yn ystod yr un cyfnod, mae perfformiad disgyblion ar y deilliant uwch na'r disgwyl mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol, sef deilliant 6, wedi gosod yr ysgol yn yr 50% uwch neu'r 25% uchaf o ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 2 dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion mewn Saesneg a gwyddoniaeth wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng yr 50% is a'r 25% uchaf o ysgolion tebyg. Mae perfformiad disgyblion mewn mathemateg wedi gosod yr ysgol yn yr 50% uwch neu'r 25% uchaf. Yn ystod yr un cyfnod, mae perfformiad disgyblion ar y lefel uwch na'r disgwyl mewn Saesneg a mathemateg, sef lefel 5, wedi gosod yr ysgol yn yr 50% uwch neu'r 25% uchaf o ysgolion tebyg. Mae perfformiad disgyblion mewn gwyddoniaeth wedi symud yr ysgol o'r 50% is i'r 25% uchaf o ysgolion tebyg.

At ei gilydd, mae perfformiad bechgyn ar y lefelau disgwyliedig yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad merched gydag amser. Fodd bynnag, mae merched yn gwneud yn well na bechgyn yn y deilliannau ac ar y lefelau uwch na'r disgwyl. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac eraill sy'n derbyn cymorth penodol, yn gwneud cynnydd da. Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng deilliannau diwedd cyfnod allweddol disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ffordd iach o fyw. Dangosant agwedd gadarnhaol at fod yn iach a deallant eu cyfrifoldebau wrth wneud dewisiadau am y pethau y maent yn eu bwyta a'u gweithgarwch corfforol. Mae'r holl ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus y bydd staff yn gwrando arnynt os byddant yn poeni neu'n gofidio.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi, o gwmpas yr ysgol ac yn yr ardaloedd awyr agored adeg amser chwarae. Maent yn rhyngweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn dangos cwrteisi a pharch tuag at eu cyfoedion ac oedolion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi a dangosant fwynhad a diddordeb yn eu dysgu.

Mae'r cyngor ysgol yn cyfrannu'n effeithiol at wneud penderfyniadau ac mae wedi arwain nifer o fentrau sydd wedi gwella lles disgyblion, er enghraifft trwy gyflwyno bagiau ffrwythau amser egwyl a darparu clwb gemau yn ystod yr awr ginio. Mae aelodau'n dangos empathi trwy godi arian ar gyfer gwahanol elusennau ac maent yn dangos cyfrifoldeb trwy drefnu a hyrwyddo digwyddiadau. O ganlyniad, datblygant falchder yn eu cymuned ac maent yn ei chynrychioli'n frwdfrydig.

Mae cyfraddau presenoldeb dros y ddwy flynedd diwethaf wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu ysgogol, sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion ac sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r profiadau hyn yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan eu galluogi nhw i ennill a datblygu medrau newydd gyda hyder. Caiff disgyblion yn y Cyfnod Allweddol ac yng nghyfnod allweddol 2 gyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu eu dysgu trwy ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored. Mae hyn yn cefnogi datblygu eu hannibyniaeth a'u medrau cymdeithasol yn dda. Mae ystod helaeth o ymweliadau a gweithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi dealltwriaeth ddiwylliannol disgyblion ac yn hybu eu lles corfforol yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da yn gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol i ddarparu cyfleoedd gwerth chweil i'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn gynyddol wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol.

Mae darpariaeth dda ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn hybu dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn dda. Mae ethos Cymreig cryf yn yr ysgol. Mae astudiaethau o fabolgampwyr ac artistiaid enwog o Gymru, ynghyd ag astudiaethau o sut mae ardaloedd eraill yng Nghymru wedi newid dros y blynyddoedd, yn nodwedd amlwg o'r ddarpariaeth hon.

Mae'r ysgol yn hybu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy yn dda trwy amrywiaeth eang o weithgareddau. Mae disgyblion yn dysgu pwysigrwydd gweithredu'n gynaliadwy trwy arbed ynni, ailgylchu ac awgrymu ffyrdd o wella tir yr ysgol. Mae cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang, er enghraifft trwy ganolbwyntio ar agweddau ar ddiwylliant yng ngwledydd Affrica. Caiff disgyblion o bob oedran gyfleoedd i ddysgu Almaeneg neu Sbaeneg mewn clybiau ar ôl ysgol. Mae hyn yn eu galluogi i ddysgu am fywyd yng ngwledydd eraill Ewrop a datblygu eu medrau ieithyddol ymhellach.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yn defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu i ennyn diddordeb disgyblon. Mae ganddynt wybodaeth gyfredol am eu pynciau. Mae perthynas waith effeithiol rhwng staff a disgyblion. Mae'r holl athrawon yn sefydlu trefn effeithiol yn yr ystafell ddosbarth sy'n defnyddio gwaith unigol, pâr a grŵp yn llwyddiannus. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol ac mae ganddynt amcanion clir ar gyfer profiadau dysgu. Fodd bynnag, mewn ychydig wersi, nid yw athrawon yn cynllunio tasgau dysgu'n ddigon da i herio pob disgybl ar lefel briodol, yn enwedig y rhai mwy abl. Mae cyflwyniadau athrawon i ddisgyblion ar ddechrau gwersi yn frwdfrydig ac yn ennyn diddordeb disgyblion o'r cychwyn cyntaf. Maent yn gosod gweithgareddau mewn trefn yn dda ac yn sicrhau bod y rhan fwyaf o wersi'n mynd yn eu blaen ar gyflymder priodol. Defnyddiant holi medrus i hybu dealltwriaeth disgyblion. Darparant gymorth effeithiol i ddisgyblion ac maent yn ymyrryd ar adegau priodol.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae oedolion yn rhoi adborth gwerthfawr i ddisgyblion trwy holi, hunanasesu ac arfarnu gwaith yn gysylltiedig â meini prawf llwyddiant. Mae hyn yn eu helpu i ddeall beth maent yn ei wneud yn dda a beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd, gan roi targedau clir yn aml i ddisgyblion er mwyn gwella. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol ac nid yw athrawon bob amser yn cynnwys digon o amser i ddisgyblion ymateb yn bwrpasol i awgrymiadau ar gyfer gwella.

Mae'r ysgol yn defnyddio gweithdrefnau systematig ar gyfer asesu, monitro a chofnodi cynnydd disgyblion yn effeithiol. Mae staff yn dadansoddi data perfformiad yn drylwyr i fonitro cynnydd disgyblion yn ofalus. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth glir iddynt o gryfderau a meysydd i'w gwella disgyblion unigol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion lleol eraill i asesu deilliannau disgyblion yn gywir. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn fanwl ac yn rhoi gwybodaeth glir iddynt am gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae'r ddarpariaeth yn llwyddo i godi ymwybyddiaeth disgyblion o sut i fod yn ddiogel, cymryd cyfrifoldeb a pharchu eraill. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda a rhoddant gymorth priodol iddynt os ydynt yn poeni neu'n pryderu am rywbeth. Mae addoli ar y cyd yn gosod naws Gristnogol a moesol ac mae'n darparu cyfleoedd addas i greu ethos myfyriol. Mae'r holl staff yn hybu

ymddygiad da yn llwyddiannus. Mae trefniadau priodol gan yr ysgol i hybu ac annog bwyta ac yfed yn iach. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd mynych i ymarfer corff yn rheolaidd, wedi'u cefnogi gan amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol poblogaidd.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o amrywiaeth o wasanaethau cymorth allanol. Darparant gyngor ac arweiniad defnyddiol i staff, disgyblion a rhieni, er enghraifft i drafod materion lles fel y bo'n briodol neu i roi cymorth ar agweddau ar faterion iechyd.

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol i nodi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau penodol, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan staff ar y cyd â rhieni a disgyblion. Mae amrywiaeth o strategaethau ymyrryd penodol yn cefnogi'r disgyblion hyn yn dda. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau yn ystod y sesiynau hyn. Fodd bynnag, mewn ychydig ddosbarthiadau, nid yw tasgau dysgu bob amser yn cyfateb yn union i anghenion y disgyblion hyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar a chynhwysol sy'n dathlu llwyddiannau disgyblion yn dda. Mae ethos tawel a phwrpasol, sy'n cynnwys ac yn gwerthfawrogi pob disgybl ac aelod staff. Mae hyn yn cefnogi dysgu disgyblion yn dda. Mae staff yn trin yr holl ddisgyblion yn deg ac yn eu galluogi i fanteisio ar holl feysydd y cwricwlwm yn gyfartal. Mae pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth cefndiroedd disgyblion ac mewn cymdeithas yn ei chyfanrwydd.

Mae adeilad a thir yr ysgol o safon uchel ac maent yn helpu creu amgylchedd dysgu cadarnhaol. Cânt eu cynnal a'u cadw'n dda, ac maent yn ddiogel. Gwna staff ddefnydd da iawn o'r holl ofod sydd ar gael, dan do ac yn yr awyr agored, i wella profiad disgyblion y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Mae ystafelloedd dosbarth a choridorau yn ddisglair a deniadol, gydag arddangosfeydd cyson dda sy'n dathlu cyflawniadau disgyblion ac sy'n ategu dysgu'n dda. Mae ystafelloedd dosbarth ag adnoddau o ansawdd da sy'n cyfateb yn dda i anghenion disgyblion.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu cyfeiriad strategol clir wrth arwain a rheoli'r ysgol. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn rhoi cymorth effeithiol. Gyda'i gilydd, mae uwch arweinwyr yn cynnal cymuned ofalgar, gefnogol sy'n annog safonau uchel a lles disgyblion. Mae arweinwyr wedi sefydlu blaenoriaethau penodol i sicrhau gwelliant pellach yng nghyflawniad disgyblion. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n glir ar wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ymhellach. Mae gan staff rolau wedi'u diffinio'n glir o ran cyflawni'r blaenoriaethau hyn ac maent yn gweithio'n dda fel tîm.

Mae hyn wedi arwain at welliannau mewn safonau a darpariaeth. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad cadarn yn galluogi arweinwyr i herio a chefnogi staff, a gosod targedau iddynt sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol ac sy'n bodloni eu hanghenion datblygiad proffesiynol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Er enghraifft, mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i sefydlu'n gadarn ac mae cynnydd effeithiol o ran cyflwyno'r fframwaith llythrennedd a rhifedd. Mae'r ysgol yn rhannu ei harfer dda gydag ysgolion eraill yn yr awdurdod lleol, er enghraifft trwy grwpiau partneriaeth y Cyfnod Sylfaen.

Mae llywodraethwyr yr ysgol yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rôl. Maent yn ystyried data a gwybodaeth arall yn ofalus i arfarnu perfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae hyn yn eu galluogi i herio'r ysgol yn effeithiol ac i gyfrannu'n bwrpasol at y broses hunanarfarnu. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i arfarnu effeithiolrwydd adnoddau a strategaethau addysgu. Mae hyn yn eu helpu i ennill dealltwriaeth glir o feysydd i'w gwella a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Maent yn cyflawni eu dyletswyddau'n dda ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu prosesau hunanarfarnu sicr sy'n galluogi arweinwyr yr ysgol i ganolbwyntio'n glir ar ddatblygu strategaethau addysgu a dysgu sy'n ysgogi gwelliannau mewn safonau disgyblion. Mae'r broses hunanarfarnu yn defnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth, gan gynnwys barn staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni. Mae arweinwyr yn monitro dysgu a chynnydd disgyblion yn effeithiol trwy arsylwadau ystafell ddosbarth, craffu ar waith a gwrando ar ddysgwyr. Dadansoddant ddata yn ofalus i gymharu perfformiad yr ysgol â pherfformiad ysgolion tebyg. Mae'r holl athrawon yn cyfrannu'n effeithiol at y broses trwy gynnal archwiliadau o feysydd pwnc penodol yn y cylch monitro rheolaidd. O ganlyniad, mae'r ysgol yn deall beth y mae angen iddi ei wneud i wella yn glir.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn amlygu cynnydd a wnaed yn erbyn blaenoriaethau blaenorol. O ganlyniad, mae'r adroddiad yn rhoi darlun cywir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu ymhellach. Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i bennu blaenoriaethau a thargedau clir ar gyfer gwella'r ysgol, fel ymestyn lefelau cyrhaeddiad disgyblion mwy abl. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn gryno ac yn glir ac mae'n cynnwys nifer hwylus o flaenoriaethau gwella. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau mewn llythrennedd a rhifedd, a rhoddant gyfeiriad clir ar gyfer gwelliant pellach.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod dda o bartneriaethau strategol sy'n cyfrannu'n bwrpasol at ei darpariaeth ac yn ymestyn profiadau disgyblion. Mae rhieni'n gefnogol iawn o'r ysgol ac yn gwerthfawrogi'r ffordd y mae'n ystyried eu barn. Caiff llawer ohonynt effaith gadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol trwy eu cefnogaeth ar gyfer 'Ffrindiau Derwen', sy'n codi arian sylweddol i ddatblygu cyfleusterau'r ysgol. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys cyfrannu at gost adnoddau TGCh gwell, darparu mwy o lyfrau

darllen a datblygu tir yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynnal clwb brecwast a chlwb ôl-ysgol poblogaidd, sy'n ymestyn ymhellach ei gallu i ddarparu'n effeithiol ar gyfer lles a chynnydd disgyblion.

Mae'r ysgol yn cynnal cyswllt agos â chylch chwarae'r pentref, sy'n galluogi disgyblion newydd i ymgyfarwyddo â'r ysgol ac yn hwyluso'r pontio i'r dosbarth meithrin. Mae athrawon yn cydweithio'n agos â chydweithwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd lleol eraill i sicrhau bod prosiectau pontio effeithiol yn ategu parhad yn nysgu disgyblion wrth iddynt symud ymlaen i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae'r trefniadau hyn wedi galluogi'r ysgol i sicrhau ansawdd ei gweithdrefnau ar gyfer asesiadau athrawon ac i gryfhau ei darpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae mentrau diweddar yn cynnwys gweithdai i ddisgyblion mwy abl a chynllunio ar y cyd i well ysgrifennu disgyblion. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda'i phartneriaid mewn awdurdodau lleol a'i phartneriaid rhanbarthol ac mae'n eu defnyddio'n adeiladol i herio'i pherfformiad. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda grwpiau cymunedol i ehangu ei darpariaeth ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o gynaliadwyedd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae digon o staff i alluogi'r holl ddisgyblion i fanteisio'n llawn ar y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Gwna staff cymorth addysgu gyfraniad arwyddocaol at ddysgu disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol, er enghraifft i sicrhau asesiadau cywir a chynllunio gwersi'n ofalus i alluogi disgyblion i wneud cynnydd da. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad effeithiol, sy'n cynnwys athrawon a staff cymorth, yn arwain at gyfleoedd hyfforddi a datblygu addas a pherthnasol i'r holl staff.

Mae athrawon yn gweithio'n dda o fewn rhwydweithiau arfer broffesiynol gydag athrawon o ysgolion lleol eraill, er enghraifft i ddatblygu dulliau o ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion mwy abl ac i ddefnyddio'r e-bost i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion. Mae'r rhwydweithiau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth ac ar safonau a chyrhaeddiad disgyblion. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i athrawon rannu arferion mewn ysgolion y tu hwnt i'r ardal leol.

Mae'r corff llywodraethol yn rheoli cyllideb yr ysgol yn ofalus ac yn sicrhau bod holl feysydd yr ysgol yn cael cyflenwad da o adnoddau sy'n mynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio grantiau penodol yn effeithiol i ategu dysgu disgyblion.

O ystyried deilliannau da disgyblion ac ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6645200 - Ysgol Derwen**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 209 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 1.4 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 27 | 30 | 23 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 92.6 | 100.0 | 91.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 27 | 30 | 23 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 92.6 | 100.0 | 91.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 46.7 | 60.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 27 | 30 | 23 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 37.0 | 70.0 | 52.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 27 | 30 | 23 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 96.3 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 51.9 | 80.0 | 82.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6645200 - Ysgol Derwen**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 209 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 1.4 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 26 | 28 | 27 | 32 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 92.3 | 89.3 | 100.0 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 28 | 27 | 32 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.3 | 92.9 | 100.0 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 38.5 | 53.6 | 44.4 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 28 | 27 | 32 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 96.2 | 96.4 | 100.0 | 96.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 38.5 | 46.4 | 59.3 | 65.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 28 | 27 | 32 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.3 | 100.0 | 100.0 | 96.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 26.9 | 42.9 | 63.0 | 59.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

yn dynodi'r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 146 | 146 | 0 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 144 | 135 | 9 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 94% | 6% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 146 | 143 | 3 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 144 | 135 | 9 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 94% | 6% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 146 | 136 | 10 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 146 | 144 | 2 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 99% | 1% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 146 | 146 | 0 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 146 | 145 | 1 | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 99% | 1% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 146 | 136 | 10 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 145 | 137 | 8 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 94% | 6% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 137 | 115 | 22 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 84% | 16% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 144 | 128 | 16 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 89% | 11% | |
| | | 84% | 16% | |

# Ymatebion i’r holiadur i rieni

yn dynodi’r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | responses<br>Nifer o | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | disagree<br>Anghytuno'n | Don’t know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 20 | 15<br>75%<br>63% | 3<br>15%<br>33% | 0<br>0%<br>3% | 0<br>0%<br>1% | 2 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| My child likes this school. | 20 | 15<br>75%<br>73% | 5<br>25%<br>25% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 20 | 17<br>85%<br>72% | 3<br>15%<br>26% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| My child is making good progress at school. | 20 | 12<br>60%<br>61% | 6<br>30%<br>34% | 1<br>5%<br>3% | 0<br>0%<br>1% | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| Pupils behave well in school. | 20 | 15<br>75%<br>46% | 5<br>25%<br>45% | 0<br>0%<br>4% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| Teaching is good. | 20 | 14<br>70%<br>60% | 3<br>15%<br>35% | 0<br>0%<br>2% | 1<br>5%<br>0% | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 20 | 13<br>65%<br>63% | 7<br>35%<br>33% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 19 | 13<br>68%<br>47% | 4<br>21%<br>40% | 0<br>0%<br>6% | 1<br>5%<br>1% | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 20 | 15<br>75%<br>58% | 4<br>20%<br>33% | 0<br>0%<br>4% | 0<br>0%<br>1% | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 20 | 15<br>75%<br>59% | 4<br>20%<br>36% | 0<br>0%<br>2% | 0<br>0%<br>0% | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| My child is safe at school. | 20 | 17<br>85%<br>66% | 3<br>15%<br>31% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 19 | 9<br>47%<br>50% | 4<br>21%<br>34% | 0<br>0%<br>4% | 1<br>5%<br>1% | 5 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 20 | 10<br>50%<br>49% | 4<br>20%<br>40% | 3<br>15%<br>8% | 1<br>5%<br>2% | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 20 | 15<br>75%<br>62% | 5<br>25%<br>31% | 0<br>0%<br>4% | 0<br>0%<br>2% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |

| | responses Nifer o | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | disagree Anghytuno'n | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 20 | 11 | 6 | 0 | 0 | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 55% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 38% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 20 | 15 | 2 | 0 | 0 | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 75% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 16 | 6 | 3 | 0 | 1 | 6 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 38% | 19% | 0% | 6% | | |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 20 | 13 | 5 | 2 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 65% | 25% | 10% | 0% | | |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 19 | 15 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Edward Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| William Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Susan Elizabeth Roden | Arolygydd Lleyg |
| Andrew Brasington | Arolygydd Cymheiriaid |
| Richard Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy’r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i’r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae’r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i’r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni’r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.